

## GRANT DYSGU PROFFESIYNOL

<b>Ysgol/School</b>	<b>YSGOL DAVID HUGHES</b>
<b>Swm a ddyrannwyd/ Allocated Sum</b>	<b>£26,613</b>

<b>Amlinelliad o'r bwriadau/Outline of intentions</b>	<p>Prif fwriad Ysgol David Hughes yw defnyddio y Grant Dysgu Proffesiynol i greu'r amodau a'r capasiti i ddatblygu ein holl weithlu yn barod i wynebu'r her o gyflwyno'r cwricwlwm newydd.</p> <p>Bydd y prif ffocws ar feithrin ac esblygu dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar bedagogaeth llawr dosbarth a fydd yn allweddol i gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Fe fydd hyn yn cynnwys cydweithio'n agos gyda'r ysgolion cynradd yn y dalgylch.</p> <p>Datblygir yr ysgol fel sefydliad sy'n dysgu gan ymgymryd â phrosiectau penodol megis 'Building Learning Power' a phrosiect Shirley Clark.</p> <p>Ail strwythuro adrannau i gydweithio o fewn y Meysydd Dysgu a Phrofiad a fydd yn sail i'r cwricwlwm newydd.</p> <p>Gwneir defnydd o'r cyllid i ryddhau staff i gydweithio, cyd gynllunio, derbyn hyfforddiant ynghyd â darparu adnoddau penodol ar gyfer cwricwlwm diwygiedig i'w dreialu gyda Blwyddyn 7 o Fedi 2019</p>
---	---

<b>Yr Effaith a'r Canlyniadau a Ddisgwylir/ Expected Impact and Outcomes</b>	<p>Er fod y dysgu proffesiynol a gynllunnir wedi ei dargedu ar gyfer paratoi at gyflwyno'r cwricwlwm newydd, yn sicr fe fydd yr hyfforddiant a'r arbrofi o ran pedagogaeth yn cael effaith gadarnhaol ar y safonau a'r profiadau dysgu a gaiff yr holl ddysgwyr ar draws yr ystod oed a gallu llawn.</p> <p>Bwriedir cyflwyno cwricwlwm a chynlluniau gwaith diwygiedig ar gyfer Blwyddyn 7 yn Medi 2019 gan gynnig profiadau dysgu cyfoethog sy'n meithrin sgiliau dysgu annibynnol.</p> <p>Anelir at gydweithio agos gyda'r ysgolion cynradd lleol gyda ffocws penodol ar agweddau cwricwlaidd. Bydd hyn yn arwain at ddatblygiad a dilyniant mwy cyson a bwriadus wrth i ddysgwyr drosglwyddo rhwng y sectorau.</p>
--	--

## Gwerthuso

<p><b>Beth sydd wedi gweithio'n dda/<i>What worked well</i></b></p>	<p><b>Bu i'r athrawon a fu'n rhan o'r prosiectau BLP a Shirley Clark gynnal hyfforddiant staff cyfan i rannu o'u profiad a rhoi arweiniad penodol o ran dysgu ac addysgu</b></p> <p><b>Ail strwythurwyd yr adrannau i gydweithio a dechrau cyd gynllunio o fewn y Meysydd Dysgu a Phrofiad sy'n sail i'r cwricwlwm newydd. Gwnaed cynnydd da o ran dechrau cynllunio profiadau penodol o fewn y M D a Ph.</b></p>
<p><b>Yr Effaith a'r Canlyniadau/<i>Impact and Outcomes</i></b></p>	<p><b>Meddylfryd y staff yn gadarnhaol o ran wynebu'r her i'r dyfodol.</b></p> <p><b>Yr ysgol yn gallu ymgymryd yn effeithiol a'i rôl fel Ysgol Fraenaru wrth arbrofi a datblygu cwricwlwm newydd.</b></p> <p><b>Safonau dysgu ac addysgu yn gwella ar draws yr ysgol</b></p>
<p><b>Y Cam Nesaf/<i>Next stage</i></b></p>	<p><b>Cyflwyno cwricwlwm arbrofol ar gyfer Blwyddyn 7 yn Medi 2019</b></p> <p><b>Ymgymryd â'r rôl fel Ysgol Fraenaru</b></p> <p><b>Cyd gynllunio gyda'r ysgolion cynradd lleol</b></p> <p><b>Parhau i hyfforddi staff wrth ddatblygu eu sgiliau addysgu</b></p>